| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **14 CHWEFROR 2013** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2013/14 A STRATEGAETH ARIANNOL 2013/14 – 2016/17** |
| PWRPAS: | **CYFLWYNO'R GYLLIDEB A'R STRATEGAETH I'W GRAFFU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO O RAN PRIODOLDEB ARIANNOL Y STRATEGAETH** |
| GWEITHREDIAD: | **CRAFFU'R WYBODAETH CYN I'R CABINET DDOD I GASGLIADAU TERFYNOL AR BETH I'W ARGYMELL I'R CYNGOR** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL A DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID.** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

Yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror bydd disgwyl i'r Cabinet gynnig cyllideb i'r Cyngor sy'n cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylid ei argymell ar gyfer 2013/14.

Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd–destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach bwriedir hefyd gynnig strategaeth ariannol ar gyfer oes y Cyngor yma (2013/14 – 2016/17).

Mae hyn yn parhau gyda'r arferiad a fu gennym bellach ers rhai blynyddoedd - arferiad sy'n cael ei ganmol gan yr Archwiliwr Dosbarth ac yn talu ar ei ganfed o ystyried y sefyllfa yr ydym yn ei wynebu o'i gymharu â rhai cynghorau eraill.

Mae'r cabinet eisoes wedi rhoddi ystyriaeth i'r hyn y mae'n bwriadu ei argymell ac fe nodir y syniadau cychwynnol hynny yn yr adroddiad amgaeedig.

Cyn i'r Cabinet ddod i gasgliadau terfynol, rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y strategaeth er mwyn i'r Cabinet fedru ystyried unrhyw sylwadau sydd ganddo wrth lunio'r cynigion terfynol.